COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 5ed o CHWEFROR 2018 YN SWYDDFA'R CYNGOR,NEUADD PONTIETS AM 7.00.
Presennol: Ian Evans (yn y gadair),Alan Lewis,Aled Williams,Linda Williams,Tracey James,Heddwyn Jones,Tyssul Evans,Geoff Hewitt,Carol Williams,Margaret Rees,Meic Bowen,Geraint Rosser a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau:

Materion Personol:-

1882 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cydymdeimlwyd a'r diweddar Cyn-Gynghorydd David Williams a fu farw yn ystod y dyddiau diwethaf a safodd y Cynghorwyr mewn munud o dawelwch er coffa amdano.

1883 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 08/01/2018 fel rhai cywir.

1884 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1850 - Rheilffordd Pontiets - Darllenwyd e-byst oddiwrth Mr Stuart Thomas yn cadarnhau y bydd y gwaith presennol yn gorffen cyn bo hir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1885 Tenovus – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1886 Teenage Cancer Trust – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Cynghorwyr Geoff Hewitt a Meic Bowen yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1887 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth- Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Geoff a Meic yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1888 Eisteddfod Llangollen – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1889 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1890 Eglwys Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1891 Neuadd Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1892 Moreia Meinciau – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1893 Cyngor Sir Gar – Praesept 2018 - 2019 - Llythyr yn cadarnhau'r Praesept.

1894 Maer Tref Caerfyrddin – Pared Dewi Sant – Nodwyd y Llythyr a bydd y Cadeirydd yn bresennol.

1895 Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Edrych am Grantiau Ariannol - Penderfynwyd trosglwyddo'r llythyr i ystyriaeth Mr Adam Price A.C.

1896 Cymdeithas Les Pontiets - Pen-blwydd y Neuadd yn 80 oed - Nodwyd y gwahoddiad gyda diolch.

1897 Menter Cwm Gwendraeth Elli – Brocer Gonest – Nodwyd y llythyr a phenderfynwyd derbyn y cynllun mewn egwyddor.

Ceisiadau Cynllunio

1898 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/36670 – Mr Tom Reilly – 31,Brongwendraeth,Carwe – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.
b) Cais Rhif W/36718 – Mr & Mrs Owens – Tir tu cefn i Bwthyn Brisbane,Llangyndeyrn - Tŷ a Garej - Dim Gwrthwynebiad.
c) Cais Rhif W/36719 - Cwar Torcoed,Porthyrhyd - Rhyddhau Amodau Rhif 17,35 a 43 - Dim Gwrthwynebiad ond bod Amodau 35 a 43 yn parhau,

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1899 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ionawr 2018.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1900 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £402.71 (Mis Ionawr)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ionawr)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Ionawr)
ch) HMRC (Treth)- £80.40 (Mis Ionawr)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ionawr)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Ionawr)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Ionawr)- £184.99
f) Inc i'r Llungopïwr - £50.39
ff) Stampiau - £14.52
g) Diogelwch Norton - £29.99
ng) Ffon Syrfëwr - £30.00
h) Treuliau'r Syrfëwr - £29.50
i) Dwr Cymru – Toiledau'r Meinciau - £62.09
l) Glanhau'r Cysgodfannau Bysiau – 5 * £200 yr un

Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Gaerfyrddin

1901 Penderfynwyd galw Is-bwyllgor Cynllunio i drafod y mater hwn ymhellach

Materion Cynghorwyr

1902 **Geraint - a)** Gofyn i'r Cyngor Sir a oes modd gwella'r golau sydd uwchben y groesffordd tu allan i Neuadd Pontiets
b) Consyrn am annibendod wrth safle ail-gylchu Meinciau

1903 **Carol - a) -** Cysylltu â'r Swyddfa Bost ynglŷn â blwch casglu sydd wedi cael i fwrw lawr tu allan i Lanrafon, Llangyndeyrn dros flwyddyn yn ôl.
b) Gofyn am amcan-brys i drwsio mainc ar yr hewl tuag at Bethel,Llangyndeyrn

1904 **Meic -** Cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â sbwriel ar yr hewl fawr ym Mhontiets.

1905 Heddwyn - Cysylltu â'r Heddlu ynglŷn â cheir yn parcio ar y palmant ger Nantoer, Pedair Heol.

Cyfarfod nesaf:- 12fed o Fawrth 2018 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……